
# Cyllideb 2018-19

## STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-19

### Ein Blaenoriaethau




# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau



This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2018-19** | |
| - Cyflwyniad | 1 |
| - Rhagolwg Ariannol | 2-3 |
| - Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor | 4-5 |
| | |
| **Crynodeb o'r Taliadau i'w Codi** | |
| - Gofyniad Treth Gyngor 2018-19 | 6 |
| - Treth Gyngor 2018-19, Bandiau A-I | 6 |
| - Taliadau Treth Gyngor Band D fesul Ardal Cyngor Cymuned 2018-19 | 7 |
| - Canran yr Anheddau fesul Band Eiddo ar 31.1.2018 | 8 |
| - Ardrethi Annomestig (Busnes) | 9 |
| | |
| **Cyllideb Refeniw 2018-19** | |
| - Y Gyllideb Gros i'r Gyllideb Net | 10 |
| - Gwariant Refeniw Net fesul Cyfarwyddiaeth Wasanaeth - Crynodeb | 10 |
| - Gwariant Refeniw Net fesul Siart Gwasanaeth | 11 |
| - Ariannu Gwariant Refeniw Net | 11 |
| - Gwariant Refeniw Net fesul Math Goddrychol | 12 |
| - Gwariant Refeniw Net fesul Math Goddrychol - Siart | 12 |
| - Cyllideb Net fesul Blaenoriaeth Wella | 13 |
| - Gwariant Refeniw Gros | 13 |
| • Tarddiad yr Arian | 14 |
| • Lle caiff yr arian ei wario | 15 |
| | |
| **Cyllideb Gyfalaf 2018-19** | |
| - Cyllideb Gyfalaf | 16 |
| - Ffynonellau Cyllid Cyfalaf | 17 |
| - Dyrannu'r Gyllideb Gyfalaf | 17 |
| - Gwariant Cyfalaf - Siart | 18 |
| | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Ystadegau Allweddol** | |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 19 |
| - Ystadegau Gwasanaethau | 20-23 |
| | |
| **Ystadegau Cymharol Cymru** | |
| - Ystadegau Cymharol Cymru | 24-26 |
| **Rhestr Termau** | 27-28 |

## CYFLWYNIAD

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu cyllidebau refeniw a chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2018-19 mewn fformat cryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall.

Mae’n cynnwys crynodeb o’r gyllideb a gymeradwywyd gan y cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018 a gwybodaeth arall am ariannu’r gyllideb gyffredinol a sut caiff y Dreth gyngor ei phennu. Mae hefyd yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf a fydd ar waith tan 2027-28.

Diben yr wybodaeth a geir yn y ddogfen hon yw cynorthwyo’r cyhoedd, yr aelodau, y prif swyddogion a’u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol a pharatoi ar gyfer cyllidebau’r dyfodol.

Dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau am gynnwys y llyfryn hwn i’r Pennaeth Cyllid Dros Dro a Swyddog Adran 151, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB neu e-bostiwch Gill.Lewis@Bridgend.gov.uk.

## RHAGOLWG ARIANNOL

Ar draws y DU, mae cynghorau'n wynebu heriau digyffelyb oherwydd llai o arian gan y llywodraeth a galw cynyddol ar wasanaethau hanfodol. Hefyd ceir ansicrwydd cyffredinol yn sgîl penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr economi. Mae setliad cyllidol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn 2018-19 yn well na'r hyn a ddisgwylid gan lawer, ond mae'n dal yn ostyngiad gwirioneddol ar adeg galw cynyddol a bydd yn heriol. Yn ei chyllideb derfynol ar gyfer 2018-19, rhoddodd Llywodraeth Cymru £20m ychwanegol yn 2018-19 a £40m yn 2019-20 i gefnogi awdurdodau lleol a nodwyd ganddi mai setliad realistig yw hwn sy'n parhau i ddiogelu llywodraeth leol rhag toriadau sylweddol o gofio bod llywodraeth y DU yn lleihau cyllidebau. Dyrannwyd £100m ychwanegol hefyd dros y ddwy flynedd nesaf i gynorthwyo wrth drawsnewid y gwasanaeth iechyd.

O 2014-15 i 2017-18 bu'n rhaid i'r Cyngor wneud arbedion o fwy na £35 miliwn oherwydd llai o gyllid gan lywodraeth y DU a gostyngiad yn ein hincwm o ffioedd a chostau. Disgwylir i'r sefyllfa ariannol anodd barhau am nifer o flynyddoedd i ddod ac yn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, rydym yn amcangyfrif y bydd rhaid i ni wneud rhagor o arbedion gwerth tua £32.6 miliwn rhwng 2018-19 a 2021-22. Mae toriadau cyllidebol o'r maint hwn yn her sylweddol i'r Cyngor a fydd yn golygu y bydd rhaid i ni wneud llawer o benderfyniadau anodd am ba wasanaethau y gellir eu cynnal a'r rhai na ellir eu cynnal. Yn amlwg rydym am liniaru effaith llai o arian ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n dinasyddion. Felly, mae angen i ni wneud dros hanner o'n harbedion trwy ddefnyddio adnoddau mewn modd callach yn hytrach na lleihau safon neu lefel gwasanaethau. Byddwn yn sicrhau'r fantol trwy newidiadau i'n polisïau a'r ffordd mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu yn ogystal â lleihau neu ddiddymu rhai o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn parhau i chwarae rhan sylweddol iawn yn economi leol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n gyfrifol am wariant refeniw gros blynyddol gwerth £402 miliwn a hwn yw'r cyflogwr mwyaf yn y fwrdeistref sirol.

Cost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn 2018-19 yw £265.984m, sy'n gynnydd o £7.891m o'i chymharu â 2017-18. Y cynnydd cyllidol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru yw +0.1%. Fodd bynnag, mae'r wir effaith yn ostyngiad o oddeutu -0.25% wrth ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i dalu'r costau am gyfrifoldebau newydd. Cafodd y Cyngor gyllid ychwanegol i gynorthwyo i atal digartrefedd a chynyddodd terfynau cyfalaf o ran costau gofal preswyl, ynghyd â'r cyllid newydd a gyhoeddwyd yn y gyllideb derfynol. Mae'r cynnydd hefyd yn cynnwys £4.2 miliwn ar gyfer gwasanaethau a oedd yn cael eu hariannu ar wahân

yn y gorffennol ond sydd bellach yn cael eu talu fel rhan o setliad y Grant Cynnal Refeniw.

Yn ogystal â bod â llai o incwm i ariannu gwasanaethau, mae pwysau eraill sy'n effeithio ar adnoddau. Un o'r rhain yw newidiadau deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru (LIC) naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – er enghraifft gofynion newydd i gofrestru staff gofal cartref, gofynion newydd sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i hybu bioamrywiaeth, gofynion sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 megis rhwymedigaethau cynyddol o ran cyngor blaengynllunio, gofynion ymgynghori sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i ysgolion, trafnidiaeth ysgol ac, yn wir, y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Ceir pwysau sylweddol eraill o ganlyniad i newidiadau demograffig. Mae pobl yn byw'n hirach sy'n beth da ond mae hynny hefyd yn gallu cynyddu dibyniaeth gan fod pobl yn byw â chyflyrau mwy cymhleth neu niferus. Yn ogystal, gwelir cynnydd yn nifer y disgyblion yn ein hysgolion, sy'n cynyddu'r pwysau ar gyllidebau ysgolion.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun corfforaethol sy'n amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i reoli'r pwysau hyn wrth barhau i sicrhau cyhyd â phosib y gellir darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymuned Pen-y-bont ar Ogwr o fewn strategaeth ariannol tymor canolig yr awdurdod.

I gyflawni cyllideb gytbwys, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys cynigion i arbed £6.123 miliwn yn 2018-19.

Yn 2018-19 bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi rhagfynegi cyllideb refeniw gros o £402 miliwn i gynorthwyo busnesau craidd a'r blaenoriaethau[1] corfforaethol a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol. Caiff tua £172 miliwn o'r swm hwn ei wario ar staff y Cyngor ei hun gan gynnwys athrawon a staff cymorth ysgolion. Mae rhan helaeth o gost y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol hefyd yn ymwneud â chyflogau – mae'r rhain yn cynnwys gweithredwyr casglu gwastraff, gweithiwyr gofal cartref a gofalwyr maeth.

1.

**BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL**
**1.Cynnal economi lwyddiannus**
**2. Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol**
**3. Defnydd callach o adnoddau**

## ARIANNU GWASANAETHAU'R CYNGOR

### Gwasanaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau megis addysg, gofal cymdeithasol, cynnal priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy a diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, cofrestryddion a chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd trwy ein partneriaid HALO ac Awen.

Gellir rhannu gwariant y Cyngor yn ddau fath – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

### Gwariant Refeniw

Mae gwariant refeniw yn cynnwys talu am gostau gwasanaethau pob dydd megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a nwyddau cyffredinol, comisiynu ac offer. Telir y gwariant hwn trwy'r incwm a geir o'r Dreth gyngor, ardrethi busnes, y ffioedd a'r costau a godir ar gyfer gwasanaethau penodol a grantiau a dderbynnir gan y llywodraeth.

### Gwariant Cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwario ar asedau megis ffyrdd, ysgolion newydd, ailddatblygu a phrojectau mawr i adnewyddu adeiladau. Bydd yr asedau hyn o fudd i'r gymuned am sawl blwyddyn a chaiff y gwariant ei ariannu'n bennaf trwy fenthyciadau, grantiau cyfalaf a gwerthu tir ac adeiladau diangen.

**Ffynonellau Ariannu** Prif ffynonellau incwm y Cyngor yw ffioedd a chostau, grantiau, ardrethi busnes a'r Dreth gyngor. Ceir diffiniad o'r rhain isod:

- **Ffioedd a Chostau**

  Mae ffynonellau incwm o ffioedd a chostau'n amrywio o ffioedd parcio i gostau am lety preswyl i'r henoed, costau prydau ysgol, ffioedd cynllunio, casglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau a phrydlesu masnachol megis prydlesu unedau diwydiannol.

- **Grantiau ac Ardrethi (Busnes) y Llywodraeth**

  Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cyllid i awdurdodau lleol trwy sawl ffynhonnell, gan gynnwys y grant unigol mwyaf o'r enw'r Grant Cynnal Refeniw, y gellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben o'u dewis wrth ddarparu'r gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a roddir i gynghorau gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Yn ogystal â'r cyllid mae awdurdodau'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u neilltuo gan gyrff llywodraeth eraill. (Ni ellir defnyddio'r grantiau hyn ond at y dibenion penodol y'u darperir.) Yn ogystal, maent yn derbyn incwm

o Ardrethi Annomestig (Busnes) a bennir yn genedlaethol ac o'r Dreth gyngor a bennir yn lleol.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, a gallan nhw benderfynu'r swm y gallant fforddio ei fenthyca ar sail asesiad darbodus o'u cyllid trwy ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol (y Cod Materion Ariannol). Y term ar gyfer arian a fenthycir yn unol â'r cod yw Benthyca Darbodus.

- **Y Dreth Gyngor**

Ar ôl ystyried incwm o ffioedd, costau, grantiau llywodraeth ac ardrethi annomestig, caiff gwariant refeniw ei ariannu trwy Dreth gyngor a godir ar bob eiddo o fewn ardal y Cyngor, yn amodol ar ostyngiadau ac eithriadau penodol.

Y Dreth gyngor yw unig elfen drethu cyllid y Cyngor na phennir gan y llywodraeth. Yn 2018-19, mae'r incwm o'r Dreth gyngor yn 18% o wariant refeniw gros y Cyngor.

## CRYNODEB O'R COSTAU I'W CODI Gofyniad Treth Gyngor 2018-19

Er mwyn llunio ei gyllideb derfynol, mae'n rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad treth gyngor – swm yr arian i'w godi gan y dreth gyngor. Hynny yw y swm ar ôl ariannu pob maes dan bwysau ac asesu lefelau'r incwm gan y llywodraeth a ffynonellau eraill. Mae'r dreth gyngor yn 18% yn unig o'r arian a dderbynnir gan y Cyngor. Nod cynyddu'r lefel yw creu cydbwysedd rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2018-19 yw 53,315.53, sy'n golygu treth gyngor Band D o £1,395.51, fel y nodir yn y tabl isod:

### Cyfrifir cyfartaledd Treth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 2017-18 £ | 2018-19 £ |
|---|---|---|
| Gwariant a godir ar y Cyfrif Refeniw | 394,272,302 | 402,092,022 |
| **Incwm wedi'i gredydu i'r Cyfrif Refeniw** | **-136,179,000** | **-136,107,925** |
| **Is-gyfanswm** | **258,093,302** | **265,984,097** |
| Grant Cynnal Refeniw (GCR) | -141,610,389 | -145,779,915 |
| Dosraniad AAC (Ardrethi Busnes) | -46,027,476 | -45,801,827 |
| **Is-gyfanswm** | **70,455,437** | **74,402,355** |
| Gofyniad Treth Gyngor | 70,455,437 | 74,402,355 |
| Sylfaen Treth Gyngor Net (Band D Cyfwerth) | 52,759.01 | 53,315.53 |
| **Gofyniad Treth Gyngor Band D** | **£1,335.42** | **£1,395.51** |
| **Newid canrannol dros y flwyddyn flaenorol** | **2.90%** | **4.50%** |

Caiff anheddau eu prisio ar sail y pris y gellid disgwyl yn rhesymol eu gwerthu ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Trwy ddefnyddio'r data hwn ar gyfer pob prisiad, nid oes rhaid eu haddasu i ystyried newidiadau mewn prisiau gydag amser. Caiff annedd newydd a adeiledir ym mis Ebrill 2018 ei brisio ar sail ei werth ar y farchnad agored fel petai wedi cael ei werthu ar 1 Ebrill 2003. Dengys y tabl isod lefel y Dreth gyngor i drigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fesul band eiddo, a gyflwynwyd i Gymru yn 2005 pan ychwanegwyd band prisio arall, sef Band I.

### Y Dreth gyngor 2018-19, Bandiau A-I: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Band | Terfynau Band y Dreth gyngor (fel ar 1.4.2005) | Y Dreth gyngor 2018-19 | Y Dreth gyngor 2017-18 |
|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | £930.34 | £890.28 |
| B | £44,001 to £65,000 | £1,085.40 | £1,038.66 |
| C | £65,001 i £91,000 | £1,240.45 | £1,187.04 |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **£1,395.51** | **£1,335.42** |
| E | £123,001 i £162,000 | £1,705.62 | £1,632.18 |
| F | £162,001 i £223,000 | £2,015.74 | £1,928.94 |
| G | £223,001 i £324,000 | £2,325.85 | £2,225.70 |
| H | £324,001 i £424,000 | £2,791.02 | £2,670.84 |
| I | £424,001 a mwy | £3,256.19 | £3,115.98 |

## Costau Treth Gyngor Band D fesul Ardal Cyngor Cymuned 2018-19

Mae bil y Dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 (1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019) yn cynnwys costau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a chynghorau cymuned/tref. Mae'r cyngor yn casglu'r taliadau i'r ddau gorff arall trwy fecanwaith y Dreth gyngor. Yna caiff yr arian a gesglir ei drosglwyddo i'r cyrff perthnasol yn unol â'r swm maent wedi'i gynnwys yn eu cyllideb i'w godi ar aelwydydd ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2018-19 y symiau sy'n ffurfio'r Dreth gyngor yw £12.45 miliwn ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, £2.495 miliwn ar gyfer cynghorau cymuned a £74.402 miliwn ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y tabl blaenorol yn dangos y Dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fesul band eiddo. Mae praeseptau cynghorau cymuned yn amrywio ar draws y Cyngor ac mae'r tabl isod yn dangos y cyfanswm sy'n daladwy fesul ardal cyngor cymuned yn 2018-19 ar gyfer eiddo Band D:

| Cyngor Cymuned | CBS Pen-y-bont ar Ogwr £ | Cyngor Cymuned £ | Yr Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Bracla | 1,395.51 | 35.92 | 233.52 | 1,664.95 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1,395.51 | 94.65 | 233.52 | 1,723.68 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 1,395.51 | 56.04 | 233.52 | 1,685.07 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 1,395.51 | 25.10 | 233.52 | 1,654.13 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 1,395.51 | 48.50 | 233.52 | 1,677.53 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 1,395.51 | 30.03 | 233.52 | 1,659.06 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 1,395.51 | 27.12 | 233.52 | 1,656.15 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 1,395.51 | 46.62 | 233.52 | 1,675.65 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 1,395.51 | 32.53 | 233.52 | 1,661.56 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 1,395.51 | 46.38 | 233.52 | 1,675.41 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 1,395.51 | 57.15 | 233.52 | 1,686.18 |
| Cyngor Tref Maesteg | 1,395.51 | 60.00 | 233.52 | 1,689.03 |
| Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 1,395.51 | 17.20 | 233.52 | 1,646.23 |
| Cyngor Cymuned Newcastle Uchaf | 1,395.51 | 23.98 | 233.52 | 1,653.01 |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | 1,395.51 | 28.88 | 233.52 | 1,657.91 |
| Cyngor Tref Pencoed | 1,395.51 | 43.72 | 233.52 | 1,672.75 |
| Cyngor Cymuned Porthcawl | 1,395.51 | 50.22 | 233.52 | 1,679.25 |
| Cyngor Cymuned y Pîl | 1,395.51 | 40.25 | 233.52 | 1,669.28 |
| Cyngor Cymuned Llansanffraid ar Ogwr | 1,395.51 | 23.20 | 233.52 | 1,652.23 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1,395.51 | 29.30 | 233.52 | 1,658.33 |


## Canran yr Anheddau fesul Band Eiddo ar 31.1.2018

Dyrennir eiddo i fandiau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (ASB), asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, mae'r Dreth gyngor wedi'i chyfrifo trwy ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a bennwyd yn 2005 trwy ddefnyddio gwerthoedd tai 2003.

Ar gyfer eiddo Band A, sef ychydig dros 16% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, elfen y Cyngor o'r Dreth gyngor yw £930.34. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am ganran anheddau'r Cyngor fesul band y Dreth gyngor.

| Band | Gwerth ar 1.4.2005 | Cymhareb | Nifer yr Anheddau | % yr anheddau yn y band | Treth Gyngor CBSPBO 2018-19 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,389 | 16.26% | 930.34 |
| B | £44,001 i £65,000 | 7/9 | 15,147 | 23.70% | 1,085.40 |
| C | £65,001 i £91,000 | 8/9 | 14,361 | 22.47% | 1,240.45 |
| D | £91,001 i £123,00 | 9/9 | 10,292 | 16.11% | 1,395.51 |
| E | £123,001 i £162,000 | 11/9 | 7,582 | 11.87% | 1,705.62 |
| F | £162,001 i £223,000 | 13/9 | 4,295 | 6.72% | 2,015.74 |
| G | £223,001 i £324,000 | 15/9 | 1,448 | 2.27% | 2,325.85 |
| H | £324,001 i £424,000 | 18/9 | 278 | 0.43% | 2,791.02 |
| I | £424,001 a mwy | 21/9 | 106 | 0.17% | 3,256.19 |

**Mae 63% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r tâl Band D cyfwerth, sef y band a ddefnyddir i gymharu lefelau treth gyngor**




## Ardrethi Annomestig (Busnes)

Ardrethi Annomestig yw sut mae busnesau a defnyddwyr eiddo annomestig eraill yn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Pennir y lluosydd ardrethi busnes cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. O fis Ebrill 2018, bydd Llywodraeth Cymru'n pennu'r lluosydd yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) a'r lluosydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 fydd 0.514.

| Ardrethi Annomestig (Busnes) | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Ardreth Fusnes Genedlaethol (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru) | 51.4c y £ | 51.4c y £ |

Caiff Ardrethi Annomestig eu cyfrifo trwy gymryd Gwerth Ardrethol (GA) eiddo a'i luosi gan y lluosydd ardrethi busnes cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Nid oes rhaid i eiddo busnes gwag dalu ardrethi busnes am 3 mis ar ôl i'r eiddo fynd yn wag. Mae eithriadau ychwanegol hefyd ar gyfer mathau penodol o eiddo sydd dan werth ardrethol penodol.

Mae cymorth ardrethi ar gyfer busnesau bach wedi'i estyn yng Nghymru tan 31 Mawrth 2018. Daw cynllun newydd parhaol i rym o 2018 ymlaen. O dan y cynllun presennol, bydd safleoedd busnes â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn derbyn 100% o gymorth a bydd y rhai â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn cymorth lleihaol o 100% i sero.

Bydd y mathau canlynol o fusnesau'n parhau i gael cymorth fel a ganlyn:


- Safleoedd â gwerth ardrethol rhwng £10,501 ac £11,000 sy'n derbyn 25% o gymorth manwerthu - bydd pob un arall yn derbyn cymorth fel y nodir uchod.
- Swyddfeydd post sy'n derbyn 100% neu 50% o gymorth.
- Safleoedd gofal plant cofrestredig â gwerth ardrethol rhwng £9,001 a £12,000 sy'n derbyn 50% o gymorth.

## CYLLIDEB REFENIW 2018-19

### Cyllideb Gros i Gyllideb Net

Fel rhan o broses pennu'r gyllideb a'r Dreth gyngor, mae'n ofyniad i'r Cyngor dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32) roi amcangyfrif o wariant net a adwaenir fel y gofyniad cyllidebol.

Mae'r diagram isod yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng cyllideb gros a net:





### Cyfrif Refeniw

Hwn yw'r cyfrif a ddefnyddir am wariant pob dydd ar wasanaethau awdurdod lleol. Hwn yw'r gwariant sy'n cael y sylw a'r cyhoeddusrwydd mwyaf gan ei fod yn cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor ac yn cael ei ariannu'n rhannol, er nid yn unig, trwy incwm y Dreth gyngor.

### Gwariant Refeniw Net fesul Cyfarwyddiaeth Wasanaeth – Crynodeb


| Gwariant ar Wasanaethau | Cyllideb Net £'000 | Band D Cyfwerth £ |
|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 19,958 | 104.71 |
| Ysgolion | 88,357 | 463.57 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles | 67,730 | 355.35 |
| Cymunedau | 26,729 | 140.24 |
| Gwasanaethau Gweithrediadol a Phartneriaeth | 14,658 | 76.91 |
| Adran y Prif Weithredwr/Adran Gyllid | 3,803 | 19.95 |
| Cyllidebau Corfforaethol | | |
| Cyllid Cyfalaf | 9,514 | 49.92 |
| Ardollau | 7,046 | 36.97 |
| Cynnal a Chadw Adeiladau | 900 | 4.72 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,354 | 75.31 |
| Ardoll Brentisiaeth | 700 | 3.67 |
| Costau Pensiynau | 430 | 2.26 |
| Premiymau Yswiriant | 1,588 | 8.33 |
| Cyllidebau Corfforaethol Eraill | 10,217 | 53.60 |
| **Gwariant net i'w ariannu** | **265,984** | **1,395.51** |

## Gwariant Net fesul Gwasanaeth




## Ariannu Gwariant Refeniw Net


Mae'r siart ganlynol yn dadansoddi'r prif ffynonellau ar gyfer ariannu gwariant net yn 2018-19:



## Gwariant Gwasanaethau fesul Math Goddrychol


| | Cyllideb £'000 | % |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 172,230 | 43% |
| Costau Safleoedd | 12,804 | 3% |
| Gwariant ar Drafnidiaeth | 14,101 | 4% |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 44,214 | 11% |
| Taliadau Trydydd Partïon | 79,417 | 20% |
| Taliadau Trosglwyddo | 66,439 | 17% |
| Gwasanaethau Cymorth | 26 | 0% |
| Costau Cyllid Cyfalaf | 12,862 | 3% |
| **Gwariant Gros** | **402,092** | **100** |
| **Grantiau** | | |
| Grantiau Penodol gan y Llywodraeth | **(85,290)** | |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | **(11,210)** | |
| Ffioedd, Costau a Ffynonellau Incwm Eraill | **(39,607)** | |
| **Cyfanswm Incwm** | **265,984** | |

Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros fesul categori yn y tabl isod:



## Cyllideb Net fesul Blaenoriaeth Wella


Mae cyllideb refeniw net yr awdurdod o £265.984 miliwn yn cynorthwyo cyflawni blaenoriaethau corfforaethol a swyddogaethol statudol y Cyngor a darparu ei wasanaethau craidd. Mae'r siart isod yn rhoi manylion am sut mae hon wedi cael ei dyrannu ar gyfer 2018-19.





## Gwariant Refeniw Net

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer 2018-19. Cost gros y gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2018-19 yw £402 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariennir trwy ffrydiau incwm eraill gan gynnwys grantiau eraill gan y llywodraeth, grantiau a chyfraniadau eraill, derbyniadau cwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.

## Tarddiad yr Arian



## Lle Caiff yr Arian ei Wario



## CYLLIDEB GYFALAF



Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, a rhoi grantiau cyfalaf i unigolion a chyrff allanol. Mae'r Gyllideb Gyfalaf yn cynnwys gwariant ar nifer o brojectau buddsoddi strategol pwysig sy'n cynorthwyo nifer o'r blaenoriaethau corfforaethol newydd arfaethedig (Cynorthwyo economi lwyddiannus, Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a Gwneud defnydd callach o adnoddau).


Mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018-19 yn cynnwys gwariant ar y projectau canlynol:

- Ysgolion yr 21ain ganrif
- Amddiffynfa Fôr (Wal Gynnal) Traeth y Dref ym Mhorthcawl
- Mesurau Ynni-effeithiol ar gyfer Goleuadau Stryd
- Ailosod Wyneb Lonydd Cerbydau ac Adnewyddu Llwybrau Cerdded
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd


Manylir ar sut yr ariennir y Rhaglen Gyfalaf yn y tabl isod:

| **Gwasanaethau** | **2018-19 £'M** |
|---|---:|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol – Benthyca â Chymorth(12%) | 3.935 |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol – Grant Cyfalaf Cyffredinol (7%) | 2.394 |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol (13%) | 4.445 |
| Benthyca Darbodus (heb gymorth)) (11%) | 3.550 |
| Benthyciad – Llywodraeth Cymru (8%) | 2.700 |
| Derbyniadau Cyfalafs (27%) | 9.180 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (21%) | 7.031 |
| Cyfraniad Refeniw (1%) | 0.458 |
| **Cyllid Gros** | **33.693** |

Mae'r siart isod yn rhoi manylion y Gyllideb Gyfalaf fesul blaenoriaeth wella:



Mae'r siart isod yn rhoi manylion cyllid cyfalaf y rhaglen gyfalaf:





Mae'r Gyllideb gyfalaf wedi'i dyrannu fel a ganlyn:

| Gwasanaeth | Cyllideb 2018-19 £M | % |
|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd [gan gynnwys Ysgolion] (9%) | 3.064 | 9 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – Gofal Cymdeithasol i Oedolion (7%) | 2.232 | 7 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles – Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant(2%) | 0.600 | 2 |
| Cymunedau – Strydlun (35%) | 11.629 | 35 |
| Cymunedau – Adfywio a Datblygu (12%) | 4.107 | 12 |
| Cymunedau – Eiddo(24%) | 8.191 | 24 |
| Gwasanaethau Gweithrediadol a Phartneriaeth – TGCh (3%) | 1.120 | 3 |
| Gwasanaethau Gweithrediadol a Phartneriaeth – Tai/Digartrefedd (8%) | 2.750 | 8 |
| **Cyfanswm: Cyllideb Gyfalaf** | **33.693** | **100** |

Caiff hyn ei ddangos yn fanylach yn y siart isod:

# Gwariant Cyfalaf yn 2018-19 (£33.693m)



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## YSTADEGAU ALLWEDDOL



Arwynebedd mewn hectarau: 25,073

| | |
|---|---|
| Poblogaeth (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2016) | 143,177 |

| Poblogaeth fesul Oedran: | Nifer | % y Boblogaeth |
|---|---|---|
| 0 i 14 oed | 8,093 | 6% |
| 5 i 15 oed | 17,672 | 12% |
| 16 i 24 oed | 14,204 | 10% |
| 25 i 44 oed | 35,650 | 25% |
| 45 i 64 oed | 39,099 | 27% |
| 65 i 74 oed | 15,941 | 11% |
| 75 i 84 oed | 9,263 | 7% |
| 85+ oed | 3,255 | 2% |
| **Cyfanswm:** | **143,177** | **100%** |

**Yr Etholaeth:**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr Etholwyr ar y Gofrestr (Rhagfyr 2016)** | 104,936 |

**Y Dreth gyngor:**

| | |
|---|---|
| Nifer y Cynghorwyr | 54 |

**Cynrychiolwyr Gwleidyddol ar 8.2.2018**

| | |
|---|---|
| Ceidwadwyr | 9 |
| Annibynnol | 16 |
| Llafur | 26 |
| Plaid Cymru | 3 |

## YSTADEGAU GWASANAETHAU

## Gwasanaethau Addysg a Chymorth Teuluoedd

| Poblogaeth (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2018) | Data Ystadegol |
|---|---|
| Poblogaeth 3 oed (a ddefnyddir ar gyfer nifer enghreifftiol disgyblion ysgol feithrin) | 1,592 |
| Poblogaeth 3 i 11 oed | 14,699 |
| Poblogaeth 3 i 16 oed | 22,539 |
| Poblogaeth 11 i 15 oed (a ddefnyddir ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd) | 7,868 |
| Poblogaeth 11 i 20 oed | 15,519 |
| Poblogaeth 16+ oed | 117,241 |
| Poblogaeth 16 i 18 oed (a ddefnyddir ar gyfer nifer disgyblion ysgol uwchradd) | 4,882 |
| Poblogaeth 0 i 17 ( a ddefnyddir ar gyfer dangosydd dan 18 oed wedi'i bwysoli) | 4,882 |

| Math o Sefydliad Addysgol | Nifer yr Unedau | Nifer ar y Gofrestr (o dderbyniad 2017 i LIC) |
|---|---|---|
| Ysgolion meithrin annibynnol * | 0 | 0 |
| Ysgolion cynradd gan gynnwys dosbarthiadau meithrin | 48 | 13,402 |
| Ysgolion uwchradd | 9 | 9,211 |
| Ysgolion neu gyfleusterau addysg arbennig | 2 | 355 |

*Ysgol sy'n derbyn disgyblion meithrin yn unig, h.y. plant 3-4 oed

## Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

| Gwasanaeth | Nifer yr Unedau | Nifer Bras y Bobl |
|---|---|---|
| Gofal Preswyl – Pobl Hŷn (sefydliadau'r awdurdod lleol) ar 31/03/2017 | 4 | 90 |
| Byw â Chymorth – i oedolion ag anableddau dysgu (sefydliadau'r awdurdod lleol) | 12 | 39 |
| Gofal Dydd – Pobl Hŷn (sefydliadau'r awdurdod lleol) | 2 | 174 |
| Gofal Dydd – i oedolion ag anableddau dysgu (sefydliadau'r awdurdod lleol) | 6 | 136 |
| Nifer y bobl hŷn sy'n derbyn cymorth mewn cartrefi gofal ar 31/03/2017 | | 304 |
| Nifer yr oedolion dan 65 oed sy'n derbyn cymorth mewn cartrefi gofal ar 31/03/2017 | | 73 |
| Nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref ar 31/03/2017 | | 938 |
| Nifer y bobl sy'n derbyn teleofal a chyfarpar gwasanaeth ar 31/03/2017 | | 2,481 |

| Gwasanaeth i Oedolion a Ddarparwyd yn 2016-17 | Nifer |
|---|---|
| Oriau gofal cartref a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol i gleientiaid 18 oed a hŷn (ac eithrio gwasanae | 133,272 |
| Oriau gofal cartref a ddarparwyd gan y sector annibynnol dan gontract (ac eithrio Better at Home) | 416,605 |
| Cyfanswm yr oedolion 18-64 oed a oedd yn derbyn gwasanaethau | 1,440 |
| Cyfanswm yr oedolion 65 oed a hŷn a oedd yn derbyn gwasanaethau | 6,170 |
| Cyfanswm yr oedolion a oedd yn derbyn gwasanaethau | 7,610 |
| **(1) Nifer yr asesiadau oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:** | |
| Nifer yr asesiadau o angen am ofal a chymorth i oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn | 2,694 |
| O'r rheiny, y nifer a arweiniodd at gynllun cymorth | 1,083 |
| **(2) Nifer yr asesiadau angen am gymorth i ofalwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:** | |
| Nifer yr asesiadau o angen am gymorth i ofalwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn: | 277 |
| O'r rheiny, y nifer a arweiniodd at gynllun cymorth | 12 |
| **(3) Nifer yr ailasesiadau i oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:** | |
| Nifer y ceisiadau am ailasesiadau o angen am gymorth neu am ofal a chymorth a wnaed gan oedolyn yn ystod y flwyddyn | 37 |
| O'r rheiny, nifer yr ailasesiadau a gynhaliwyd | 26 |
| O'r rheiny, nifer yr ailasesiadau a arweiniodd at gynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth | 3 |
| **(4) Nifer y cynlluniau cymorth a'r cynlluniau gofal a chymorth a adolygwyd yn ystod y flwyddyn:** | |
| Nifer y cynlluniau cymorth a'r cynlluniau gofal a chymorth a adolygwyd yn ystod y flwyddyn | 2,527 |
| O'r rheiny, nifer y cynlluniau a adolygwyd o fewn amserlenni cytunedig | 1,399 |
| **Nifer yr asesiadau o angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn tra oedd yr unigolyn mewn sefydliad diogel **** | 25 |

*Gwasanaeth dros dro yw Better at Home a ddatblygwyd i alluogi unigolion i dderbyn cymorth gofal cymdeithasol tymor byr yn gyflym pan fyddant yn gadael yr ysbyty ac yn aros i'w pecyn gofal neu raglen ofal gan un o'r Timau Ailalluogi Cymunedol ailddechrau.

**Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd hefyd i gynnig gofal a chymorth i'r rhai mewn sefydliadau diogel. I oedolion, mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn gweithio mewn sefydliad diogel, ni waeth beth yw ei weithle neu ei genedligrwydd blaenorol. Diffinnir sefydliadau diogel fel carcharau, safleoedd cymeradwy neu lety mechnïaeth (gan gynnwys llety cadw pobl ifanc ar gyfer y rhai dros 18 oed). Yn 2016-17 cafodd 2,527 o gynlluniau gofal a chymorth eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, ar gais yr oedolyn, y gofalwr neu'r teulu, gan gynnwys y rhai i oedolion mewn sefydliadau diogel (gweler Cyf. 4 yn y tabl uchod).

| Gwasanaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal a Ddarparwyd yn 2016-17 | Nifer y Plant |
|---|---|
| Nifer y plant mewn angen | 585 |
| Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal/plant sydd oddi cartref | 390 |
| Lleoliadau maeth | 301 |
| Wedi'u rhoi i'w mabwysiadu | 26 |
| Cartrefi'r awdurdod lleol | 15 |
| Wedi'u lleoli gyda rhieni neu bobl eraill sydd â chyfrifoldebau rhieni | 47 |
| Byw'n annibynnol | 1 |

## Gwasanaethau ar gyfer Cymunedau

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Strydlun** | |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn 2016-17 | 1,029 |
| Cyfanswm y goleuadau stryd | 19,775 |
| | |
| Cyfanswm tunelledd gwastraff solet yr awdurdod (rhagfynegiad 2017-18) | 60,279 |
| Cyfanswm tunelledd deunydd i'w ailgylchu (rhagfynegiad 2017-18) | 41,368 |
| % ailgylchu (rhagfynegiad 2017-18) | 69.0% |
| | |
| **Targed ar gyfer gwerth ariannol projectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sydd ar waith/yn yr arfaeth** | |
| 2017-18 | £16M |
| 2018-19 | £15M |
| | |
| **Trafnidiaeth a Pheirianneg** | |
| Hyd ffyrdd A y sir (km) | 104 |
| Hyd y ffyrdd B a C (km) | 139 |
| Hyd yr is-ffyrdd ag wyneb caled (km) | 537 |
| Hyd y ffyrdd A yn rhannau adeiledig y sir (km) | 52 |
| Hyd y ffyrdd B a C yn y rhannau adeiledig (km) | 83 |
| Hyd yr is-ffyrdd ag wyneb caled yn y rhannau adeiledig (km) | 435 |
| Traffig cerbydau modur ar yr holl briffyrdd * | 459,449,672 |
| | |
| Nifer y cyfleusterau seilwaith a gynhelir: | |
| Pontydd | 110 |
| Twneli | 0 |
| Ceuffosydd | 103 |
| Pontydd cerdded (gan gynnwys llwybrau cymunedol a phontydd rheilffordd BRB) | 102 |
| Tanffyrdd/tanlwybrau | 13 |
| Waliau cynnal | 155 |
| Cyffyrdd ag arwyddion | 46 |
| Croesfannau cerddwyr | 23 |
| Arwyddion negeseuon amrywiadwy/arwyddion a sbardunir gan gerbydau | 83 |

*Darparwyd y ffigurau hyn yn ganolog gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer 2016. Caiff y ffigurau llif traffig eu llunio ar sail rhifiadau traffig llaw yr Adan Drafnidiaeth a'u trin yn ystadegol i gyfrifo llif miliwn o gerbydau fesul cilometr.

## Gwasanaethau Gweithrediadol a Phartneriaeth

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Tai a Digartrefedd** | |
| Aelwydydd a oedd yn gymwys am gymorth, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen â blaenoriaeth yn 2016-17 | 75 |
| Y swm a wariwyd ar gynlluniau Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol a gwblhawyd yn 2016-17 (Cyllid Cyfalaf) | £2,351,715 |
| Nifer y cynlluniau Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn 2016-17 | 256 |
| **Gwasanaethau Rheoleiddio** | |
| Nifer y safleoedd masnachu ym mis Mawrth 2017 | 3,995 |
| Nifer y safleoedd bwyd ym mis Mawrth 2017 | 1,745 |
| | |
| **Gwasanaethau Cwsmeriaid** | |
| Nifer y cwsmeriaid a ymwelodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Rhagfyr 2017 | 25,536 |
| Nifer y galwadau ffôn a derbyniwyd gan y Ganolfan Gyswllt Ffôn | 156,946 |
| | |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Nifer y genedigaethau byw a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 | 2,185 |
| Nifer y marwolaethau a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 | 1,725 |
| Nifer y priodasau a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 | 526 |
| Nifer y trwyddedau tacsi a roddwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 | 590 |
| Nifer y trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hur preifat a roddwyd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 | 467 |
| Nifer y trwyddedau alcohol/adloniant newydd a roddwyd rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2017 | 40 |
| Nifer y trwyddedau personol newydd i werthu alcohol a roddwyd rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2017 | 150 |
| **Adnoddau Dynol** | |
| CALl 2017 y gweithlu corfforaethol ar 31.12.2017 | 2,191.6 |
| CALl 2017 gweithlu ysgolion ar 31.12 2017 | 2,209.7 |

## Llywodraethu Corfforaethol

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| Y Dreth Gyngor – Amcangyfrif o nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ar 09/02/2018 | 63,913 |
| Y Dreth Gyngor – Y tâl net i'w gasglu 2018-19 | 74,402,355 |
| Ardrethi Annomestig – Nifer y safleoedd masnachol ar 09/02/2018 | 4428 |
| Ardrethi Annomestig – Y tâl net i'w gasglu ar 09/02/2018 | 49,038,503 |
| Gwariant ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2017-18 ar 09/02/2018 | 13,649,232 |
| Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Gwariant ar Gynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2017-18 ar 09/02/2018 | 13,826 |
| Cyfanswm nifer yr anheddau â gostyngiad person sengl 09/02/2018 | 19,992 |
| Nifer yr hawlwyr budd-dal tai ar 09/02/2018 | 10,662 |

# YSTADEGAU CYMHAROL CYMRU

## Cyllidebau Gwariant Refeniw Gros Awdurdodau Lleol

| | 2017-18 | | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | | £ y pen (a) | £ miliwn | £ y pen (b) |
| Castell-nedd Port Talbot | 346.7 | | 2,459 | 342.5 | 2,438 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 328 | | 2,309 | 322 | 2,280 |
| Bro Morgannwg | 289.9 | | 2,272 | 275.2 | 2,156 |
| Rhondda Cynon Taf | 595.4 | | 2,508 | 594.7 | 2,511 |
| Cyfartaledd Holl Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru | | | 2,294 | | 2,268 |

(a) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2017-18 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015.
(b) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2016-17 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014.

## Alldro Gwariant Refeniw Gros Awdurdodau Lleol

| | 2016-17 | | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | | £ y pen (a) | £ miliwn | £ y pen (b) |
| Castell-nedd Port Talbot | 346.4 | | 2,446 | 342.3 | 2,428 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 323.7 | | 2,261 | 327.4 | 2,304 |
| Bro Morgannwg | 279.3 | | 2,174 | 273.3 | 2,142 |
| Rhondda Cynon Taf | 569.4 | | 2,389 | 569.3 | 2,398 |
| Cyfartaledd Holl Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru | | | 2,269 | | 2,260 |

(a) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2016-17 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2016.

(b) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2015-16 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015.

## Rhagfynegiad Gwariant Cyfalaf fesul Awdurdod a Gwasanaeth

| | 2017-18 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Addysg | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ffyrdd a Thrafnidiaeth | Gwasanaethau Lleol | Tai | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf a Ragfynegir | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (b) |
| | £M | £M | £M | £M | £M | £ M | |
| Castell-nedd Port Talbot | 41.76 | 0.15 | 5.864 | 8.499 | 3 | 59.273 | 420 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 31.644 | 3.538 | 2.49 | 23.732 | 2.45 | 63.854 | 449 |
| Bro Morgannwg | 9.501 | 0.505 | 5.699 | 27.848 | 20.993 | 64.546 | 506 |
| Rhondda Cynon Taf | 70.149 | 0.55 | 14.001 | 15.147 | 7.398 | 107.245 | 452 |
| Cyfartaledd Holl Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru | | | | | | 1,272 | 410 |

(a) Yn cynnwys gwariant ar yr amgylchedd, cynllunio, datblygu economaidd, llyfrgelloedd, diwylliant, chwaraeon, diogelwch cymunedol a gwasanaethau eraill.

(b) Mae cyfrifiadau £ y pen yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015.

## Alldro Gwariant Cyfalaf fesul Awdurdod

| | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (a) | £ miliwn | | Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf £ y pen (b) |
| Castell-nedd Port Talbot | 63 | | 445 | 63 | | 447 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 18.4 | ( c) | 129 | 26.3 | | 185 |
| Bro Morgannwg | 50 | | 389 | 108.3 | (d) | 849 |
| Rhondda Cynon Taf | 83.8 | | 352 | 66.9 | | 282 |
| Cyfartaledd Holl Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol Cymru | 48.535 | | 343 | 88.684 | | 630 |

(a) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2016-17 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2016.

(b) Mae cyfrifiadau £ y pen ar gyfer 2015-16 yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015.

(c) Alldro gwariant cyfalaf o £18.4m o ganlyniad i lithriant o £7.670 miliwn yn 2017-18 o ran Grantiau Grant Cyfleusterau i'r Anabl, cynlluniau moderneiddio ysgolion, cynlluniau mân waith a neilltuo cyllid ar gyfer cynlluniau gwella parciau a phafiliynau.

(ch) Bro Morgannwg – Defnyddiwyd £79.2m o'r gwariant yn 2015-16 ar dai'r sector cyhoeddus [Rhaglen Gwella Cartrefi'r Cyngor (£16m) a phrynu cyfran y system cymorthdalu tai cyngor (£63m)}.

| Amcanfrifon Poblogaeth Canol 2016 | |
|---|---|
| | |
| Castell-nedd Port Talbot | 141,588 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 143,177 |
| Bro Morgannwg | 128,463 |
| Rhondda Cynon Taf | 238,306 |
| Cyfanswm Cymru | 3,113,150 |
| | |
| **Amcanfrifon Poblogaeth Canol 2015** | |
| | |
| Castell-nedd Port Talbot | 140,992 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 142,092 |
| Bro Morgannwg | 127,592 |
| Rhondda Cynon Taf | 237,411 |
| Cyfanswm Cymru | 3,099,086 |

RHESTR TERMAU

**Cyllid Allanol Cyfun (CAC)**
Cyfanswm y cymorth allanol ar gyfer gwariant refeniw awdurdodau lleol nad ariennir trwy'r Dreth gyngor. Mae'n cynnwys Grantiau Cynnal Refeniw a thaliadau o arenillion ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu.

**Cyllideb**
Y datganiad sy'n diffinio cynlluniau ariannol y Cyngor dros gyfnod penodol o amser, fel arfer blwyddyn.

**Band D**
Mae'r Dreth gyngor ar gyfer y cartref cyfartalog. Mae'n cynnwys eiddo gwerth hyd at £123,000 (gyda'r prisiad yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003. Caiff cartrefi diweddarach eu hasesu ar sail beth byddai eu gwerth wedi bod yn 2003.

**Band D Cyfwerth**Nifer yr eiddo Band D mewn ardal a fyddai'n codi'r un Dreth gyngor â nifer gwirioneddol yr eiddo ym mhob band. Caiff eiddo ei addasu'n sylfaen gyfwerth ag eiddo ym Mand D. Er enghraifft, mae un eiddo Band H yn gyfwerth â dau eiddo Band D oherwydd bod trethdalwr mewn eiddo Band H yn talu dwywaith cymaint o Dreth gyngor.

**Gwariant Cyfalaf**
Amlinellir y diffiniad o ddibenion cyfalaf yn adran 16 Deddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n nodi bod rhaid i wariant gael ei gyfalafu yn unol ag arferion priodol.

Mae gwariant y gellir ei gyfalafu'n cynnwys:

1. Caffael, adfer, gwella neu osod tir;
2. Caffael, adeiladu, paratoi neu wella ffyrdd, adeiladau ac adeileddau eraill neu rhoi rhai newydd yn eu lle;
3. Caffael neu osod cyfarpar symudol, peirianwaith a cherbydau neu rhoi rhai newydd yn eu lle;
4. Caffael cyfalaf cyfrannau neu gyfalaf benthyciadau mewn unrhyw sefydliad corfforaethol;
5. Gwaith i gynyddu inswleiddio thermol adeilad yn sylweddol;
6. Caffael neu baratoi rhaglen gyfrifiadurol.

.

**Cynghorau Cymuned**
Y cyrff cynrychioliadol swyddogol mwyaf lleol yng Nghymru yw cynghorau cymuned, y mae eu haelodau'n cael eu dewis bob pedair blynedd i gynrychioli ardal gyfan y cyngor cymuned.

**Cynllun Corfforaethol**
Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr awdurdod er mwyn gwireddu ei weledigaeth ac mae'n amlinellu amcanion gwella allweddol y cyngor ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.Mae hefyd yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau.

**Y Dreth gyngor**

Ffynhonnell treth leol i'r awdurdod yw hon. Codir y Dreth gyngor ar aelwydydd gan yr awdurdod bilio o fewn ei ardal ac mae'n cynnwys treth gyngor i awdurdodau'r heddlu a chynghorau cymuned yn ogystal â threth gyngor yr awdurdod ei hun. Defnyddir yr elw i'w ddosbarthu i awdurdodau praeseptio ac ar gyfer ei gronfa gyffredinol ei hun.

**Cynllun GDG**
Disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan Gynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor (GDG) ym mis Ebrill 2013. Pennir Cynllun GDG yng Nghymru gan reoliadau o dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992 (fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012).

**Etholaeth**
Y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio mewn etholiad.

**Amcangyfrifon**
Symiau y disgwylir eu gwario neu eu cael fel incwm, dros gyfnod cyfrifyddu.

**Gwariant Net**
Gwariant gros namyn incwm.

**SATC (Strategaeth Ariannol Tymor Canolig)**
Cynllun sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio ei adnoddau i gynorthwyo cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau ariannol a risgiau dros gyfnod o 4 blynedd.

**Ardreth Annomestig Genedlaethol (AAG)**
Dull i fusnesau lleol gyfrannu at gost gwasanaethau awdurdodau lleol. Cesglir AAG gan awdurdodau bilio ar ran LlC ac yna cânt eu dosbarthu ymhlith yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu ar sail asesiad gwario safonol a phoblogaeth. Gelwir hefyd yn 'Ardrethi Busnes'.

**Praesept**
Tâl a godir gan awdurdodau praeseptio ar awdurdodau bilio sy'n gofyn i awdurdodau bilio gasglu incwm o'r dreth gyngor ar eu rhan.

**Benthyca yn unol â'r Cod Materion Ariannol**
Benthyca mwy na'r hyn a gynorthwyir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae'r awdurdod yn penderfynu y gellir fforddio ei ad-dalu naill ai trwy arbedion a grëir trwy'r buddsoddiad neu o'r dreth gyngor.

**Llithriant**
Newid mewn amseru gwariant ar gynlluniau cyfalaf o ganlyniad i daliadau cyfalaf yn cael eu talu mewn blynyddoedd gwahanol, fel arfer yn hwyrach i'r rhai a nodwyd yn wreiddiol.